| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **27 MAWRTH 2013** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO – BACH WEN FARM, CLYNNOG FAWR, CAERNARFON** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH RHEOLEIDDIO** |

## CAIS

Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer Bach Wen Farm, Clynnog Fawr, Caernarfon, LL54 5NH gan Mr John Clifford a Ms Helen Plaumer. Mae'r eiddo mewn ardal wledig oddi fewn i 9 acer o dir preifat ac yn cynnwys 8 o fythynnod gwyliau ac ysgubor wedi ei drosi ar gyfer ymwelwyr.

Mae'r ymgeisydd yn ceisio am drwydded i werthu alcohol o 10 yn y bore hyd at 01:00 y bore, saith diwrnod yr wythnos.
Fe wneir cais hefyd am gerddoriaeth wedi ei recordio, perfformiad dawns a gwerthu lluniaeth hwyr y nos hyd at 01:00 y bore. Gofynnir am yr hawl i ddangos ffilmiau a pherfformio dramâu a cherddoriaeth fyw hyd at 11:00 yr hwyr. Mae cerddoriaeth fyw yn ddarostyngedig i'r eithriadau a gyflwynwyd yn y Ddeddf Cerddoriaeth Fyw 2012. Golyga hyn nad yw cerddoriaeth fyw yn weithgaredd trwyddedig mewn eiddo trwyddedig neu weithle hyd at 11:00 yr hwyr i gynulleidfa o dan 200 o bobl.
Gofynnir am yr hawl i gynnal y gweithgareddau trwyddedig ( ac eithrio gwerthu alcohol ) tu mewn a thu allan i'r eiddo am yr oriau a nodir.
Gofynnir am yr hawl i agor yr eiddo i'r cyhoedd rhwng 10 y bore a 1:30 y bore wedyn , saith diwrnod yr wythnos.

Mae'r Heddlu wedi trafod y cais gyda'r ymgeisydd cyn i'r cais gael ei gyflwyno; ac fe nodir yn y sylwadau a dderbyniwyd gan yr Heddlu fod y cais yn unol â'r trafodaethau a gafwyd; ac felly nid yw'r Heddlu yn gwrthwynebu'r cais.

## YMGYNGHORIADAU

Ymgynghorwyd ar y cais a derbyniwyd ymatebion fel a ganlyn –

| **YMATEBION** | **SYLWADAU** |
|---|---|
| Aelod lleol | Dim sylwadau |
| Cyngor Cymuned | Dim sylwadau |
| Heddlu | E bost –sylwadau a dim gwrthwynebiad |
| Preswylwyr cyfagos | 5 llythyr, 2 e bost - gwrthwynebu |
| Canolfan Hanes Uwchgwyrfai, Clynnog Fawr | Llythyr - gwrthwynebu |
| Capel Ebeneser (MC) Clynnog Fawr | Llythyr - gwrthwynebu |
| Gwasanaeth Tan | Llythyr – sylwadau, dim gwrthwynebiad |
| Swyddog Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Gwynedd | E bost - sylwadau ar amodau sŵn. |

Gweler yn amgaeedig fanylion llawn y sylwadau a dderbyniwyd.

**CRYNODEB O'R SYLWADAU A SAIL GWRTHWYNEBIADAU**

**Preswylwyr a sefydliadau lleol**

Gwrthwynebir y cais ar sail y 4 amcan trwyddedu sef -

- Atal Trosedd ac anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Atal niwsans cyhoeddus
- Diogelu Plant rhag niwed

Yn benodol , mewn perthynas â'r amcanion trwyddedu, cyfeirir at y potensial o drosedd ac anrhefn, yng nghyd - destun lefel plismona mewn cymuned fechan cefn gwlad. Fe ddatganir pryderon gan sawl un parthed diogelwch plant a phobl ar y ffordd fynedfa sydd hefyd yn lwybr cyhoeddus i lawr i lan y môr.

Mae pob un sydd wedi llythyru yn erbyn y cais hefyd yn bryderus am y potensial o niwsans sŵn i drigolion cyfagos yn y gymuned.

Mae llawer iawn o'r rhai sy'n gwrthwynebu yn bryderus nad yw y cais yn gydnaws a natur a diwylliant yr ardal, ond nid yw'r ystyriaethau hyn , er yn ystyriaethau pwysig oddi fewn i gymunedau; yn ystyriaethau sy'n berthnasol i'r amcanion trwyddedu.

**ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.